Centre of expertise on child sexual abuse

# Mae cymorth yn cyfrif

## Cyd-destun gwasanaethau cymorth cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr

Rhagair a crynodeb gweithredol

Diana Parkinson
a Milly Steele

Ionawr 2024



## Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i'r holl wasanaethau a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn, gan roi o'u hamser yn hael i gael eu cyfweld a rhannu gwybodaeth gyda ni am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Hoffem ddiolch hefyd i'r holl bobl eraill sydd wedi cefnogi'r gwaith ymchwil hwn – ac yn enwedig Debra Allnock, a rannodd wybodaeth am ei phrofiadau ei hun o gynnal ymarferion mapio (gweler Allnock et al, 2009 a 2015) yn ogystal â rhywfaint o'r data mapio mynediad agored o'i hastudiaeth yn 2015.

Cefnogwyd yr ymchwil gan aelodau o grŵp cynghori ar gyfer y rhaglen waith hon, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr gwasanaethau sector nid-er-elw yn bennaf.

Yn olaf, hoffem ddiolch i holl aelodau'r tîm a helpodd i fapio a chyfweld â gwasanaethau a dadansoddi data: Hannah Begum, Shauna Breen, Paige Bromley, Victoria Holbrook-Hughes, Kairika Karsna, Sophie Laws, Anna Ludvigsen, Evelyn Sharples, Milly Steele a Jasmin Tregidga.


## Gair am yr awduron

Mae Diana Parkinson yn Brif Swyddog Ymchwil a Gwerthuso ac mae Milly Steele yn Swyddog Ymchwil a Gwerthuso yn y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh).

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Ein nod cyffredinol yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy atal ac ymateb gwell, fel bod plant yn gallu byw'n rhydd o fygythiad a niwed cam-drin rhywiol.

Rydym yn dîm amlddisgyblaeth, wedi ein hariannu gan y Swyddfa Gartref a'n gweinyddu gan Barnardo's. Gweithiwn yn agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol.

Y nodau y gweithiwn i'w cyrraedd yw:

- cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o'i raddfa a'i natur
- sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i adnabod ac ymateb yn well i blant a phobl ifanc sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol
- galluogi tarfu ac atal cam-drin plant yn rhywiol yn fwy effeithiol, drwy well dealltwriaeth o ymddygiad/parhad sy'n cam-drin yn rhywiol.

Rydym yn ceisio cyflwyno'r newidiadau hyn drwy:

- cynhyrchu a rhannu gwybodaeth am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol, a'r ymateb iddo
- mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth drwy rannu ymchwil a thystiolaeth
- darparu hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy'n gweithio yn y maes
- ymgysylltu â pholisi a dylanwadu arno.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, ewch i'n gwefan yn www.csacentre.org.uk

# Rhagair

## *Gan May Baxter-Thornton, Andy Jeffrey, Sabah Kaiser, Mike Peirce, Kelly Stacey, ac eraill y mae’n well ganddynt fod yn ddienw*

## *Arbenigwyr drwy brofiad*

Mae’r adroddiad newydd hwn gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yn ei gwneud yn glir bod angen sicrhau, yn ddybryd, bod mwy o wasanaethau cymorth ar gael i ddioddefwyr a goroeswyr ledled Cymru a Lloegr. Mae dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, yn blant ac yn oedolion, yn haeddu cymorth priodol ar gyfer eu hanghenion, ar yr adeg y mae arnynt ei angen fwyaf. Ers gormod o amser o lawer, nid yw ein lleisiau wedi cael eu credu ac maent wedi cael eu diystyru neu eu hanwybyddu. Nawr mae gennym ymchwil sy’n seiliedig ar dystiolaeth sy’n tynnu sylw at fylchau mewn cymorth ac sy’n dadlau’n glir dros gyllid cynaliadwy, hirdymor ar gyfer gwasanaethau cymorth.

Rydyn ni’n gwybod am gynifer o ddioddefwyr a goroeswyr sy’n cael trafferth dod o hyd i’r cymorth sydd ei angen arnynt. Iddyn nhw, mae’r cyd-destun ar-lein mor gymhleth a dryslyd, yn enwedig o ran dod o hyd i therapi trawma am ddim, grwpiau cymorth a chyd-oroeswyr i gysylltu â nhw mewn amgylchedd diogel. Er bod llawer mwy o ymwybyddiaeth erbyn hyn o gam-drin plant yn rhywiol a’i effaith, mae nifer y bobl sy’n ceisio cael gafael ar gymorth wedi cynyddu’n sylweddol, sy’n golygu bod rhestrau aros wedi tyfu wrth i’r galw ragori ar yr adnoddau sydd ar gael. Ochr yn ochr â hyn, mae’n ymddangos bod graddfa cam-drin plant yn rhywiol yn cynyddu, ac mae’r adroddiad hwn yn dangos bod nifer helaeth o ddioddefwyr a goroeswyr yn methu cael cymorth oherwydd diffyg gwasanaethau yn eu rhanbarth.

Mae angen cymorth ar ddioddefwyr a goroeswyr cyn gynted â phosibl er mwyn iddynt allu prosesu a delio â’u cam-drin rhywiol, a byw bywyd llawn o ran eu haddysg, eu perthnasoedd, eu gwaith a’u bywyd teuluol. Gall cymorth priodol roi grym a rheolaeth yn ôl iddynt, gan gyfoethogi eu hunanwerth a’u hyder a chaniatáu iddynt ffynnu er gwaethaf yr hyn sydd wedi digwydd iddynt. Yma, mae un ohonom yn disgrifio’r gwahaniaeth y gall derbyn y cymorth hwnnw ei wneud, hyd yn oed ymhell ar ôl i’r cam-drin ddigwydd - os gellir cael gafael ar gymorth o’r fath:

> “Fe wnes i geisio dod â fy mywyd i ben dair gwaith rhwng 14 a 17 oed. Er gwaethaf hyn, nid oedd unrhyw weithwyr cymdeithasol yn gysylltiedig â fy achos, ac ni chynigiwyd unrhyw gymorth i fy rhieni. Wnaeth neb ofyn unrhyw beth. Rywsut, fe wnaeth fy ngrŵp o ffrindiau ddarganfod fy mod i wedi bod yn yr ysbyty, a phan ddychwelais i’r ysgol fe ddywedon nhw nad oedden nhw’n gallu bod yn ffrindiau gyda fi dim mwy gan eu bod nhw’n flin gyda fi am fy mod i’n hunanol. Roeddwn i’n cael fy ystyried yn berson hunanol a chyfrwys. Dydw i ddim yn beio fy ffrindiau ysgol na fy rhieni gan nad oedd ganddyn nhw unrhyw gymorth na gwybodaeth ac roedd gan y gymdeithas enwau am ferched fel fi. Digwyddodd y cam-drin cyntaf cyn i mi gyrraedd fy arddegau. Gan nad oedd unrhyw wasanaethau’n gysylltiedig â fy achos, ac roedd gen i gymaint o gywilydd ac yn teimlo mor ynysig, roedd hyn yn fy ngwneud i’n fwy agored i ragor o gam-drin a chefais fy erlid eto…

> "Rydw i'n dal i fyw bob dydd gydag effeithiau trawma. Y llynedd, cefais 24 sesiwn o gwnsela dros y ffôn drwy ganolfan Argyfwng Trais. Roedd y cwnselydd mor broffesiynol, yn gynnes, yn deall ymlyniad ac, yn fy marn i, yn fy neall i. Erbyn diwedd y 24 sesiwn, roeddwn i newydd ddechrau meithrin ymddiriedaeth a chysylltu ychydig. Er bod y sesiynau wedi dod i ben, rydw i wedi gallu atgyfeirio'n ôl i weld yr un cwnselydd; ond, oherwydd prinder cyllid a chapasiti, mae'n debyg y bydd rhaid aros 18 mis. I bobl fel fi, mae trawma rhwng y cenedlaethau a nifer o achosion o gam-drin yn ystod plentyndod wedi ymyrryd â datblygiad rhannau o'r ymennydd sy'n ymwneud â chysylltu/rheoleiddio. Nid yw mynd yn hŷn yn cywiro hyn. Mae iechyd meddwl a pherthnasoedd pobl yn parhau i gael eu heffeithio pan fyddant yn oedolion ac mae pobl yn dal i fod yn fregus iawn."

Mae'r diffyg cymorth i deuluoedd a rhieni yn bryder mawr hefyd. Sut gall rhiant wybod sut i gefnogi ei blentyn os nad yw'n gallu cael gafael ar gymorth ei hun? Mae cefnogi plentyn ar ôl iddo ddioddef cam-drin rhywiol yn gofyn am lawer o ddealltwriaeth ac amynedd ar adeg pan fydd y rhiant yn delio â llawer iawn o drawma ei hun. Mae angen cymorth hefyd ar gyfer brodyr a chwiorydd yn y cartref a fydd yn gweld effeithiau'r cam-drin rhywiol, fel ffrwydradau ymosodol, anhwylder straen ôl-drawmatig, anhwylderau bwyta, camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl. Mae cymorth i rieni a theuluoedd yn hanfodol i wella'r dioddefwr. Nid yw hon yn broblem sy'n mynd i ddiflannu, ac mae'r goblygiadau allweddol yn yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at yr union beth sydd ei angen wrth symud ymlaen i helpu dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol i ddod yn oroeswyr.

Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn yn garreg filltir bwysig yn yr ymdrech i ddeall yn well a gwella'r gwasanaethau cymorth a ddarperir i'r rheini y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ymchwil a wnaed gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yn amserol ac yn hanfodol, ac mae'r adroddiad hwn yn alwad i weithredu. Mae'n dyst i wytnwch dioddefwyr a goroeswyr, ymroddiad darparwyr gwasanaethau a'r angen dybryd am newid. Rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i sicrhau nad oes unrhyw ddioddefwr na goroeswr yn gorfod aros am gymorth a bod pob un ohonynt, waeth beth fo'u cefndir, yn cael y gofal a'r sylw y maent yn ei haeddu. Gadewch i ni symud ymlaen gydag empathi, tosturi ac ymrwymiad i wneud gwahaniaeth parhaol i fywydau dioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd. Fel y dywedodd un arall ohonom:

> "Mae helpu dioddefwyr cam-drin rhywiol yn golygu darparu cymorth pan fyddant yn barod i estyn allan, nid chwe mis neu 12 mis yn ddiweddarach, fel y mae llawer o wasanaethau'n ei wneud heddiw. Fe wnes i allu cael gafael ar gwnsela o fewn pum diwrnod i ddatgelu fy mhrofiad. Fe wnaeth achub fy mywyd, yn llythrennol. Does dim byd arall i'w ddweud."

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth ymchwil i ddeall yn well y cymorth sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr i bobl y mae cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio arnynt.

Yn ogystal â dangos ehangder ac amrywiaeth y cymorth hwnnw, a'r gwasanaethau sy'n ei ddarparu, mae'r adroddiad yn dangos y bylchau sylweddol yn y cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd.

Drwy archwilio'r heriau y mae gwasanaethau'n eu hwynebu o ran ateb y galw, sicrhau cyllid, a recriwtio a chadw staff, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr amgylchedd ansicr y mae llawer ohonynt yn gweithredu ynddo – ac mae'n argymell sut gall llunwyr polisi, cyllidwyr a chomisiynwyr cymorth cam-drin plant yn rhywiol fynd i'r afael â hyn.

## Prif ganfyddiadau

Canfu ein hastudiaeth amrywiaeth eang o wasanaethau ymroddedig ac ymrwymedig sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd drwy gynnig darpariaeth amrywiol sy'n aml yn arloesol. Ac eto, mae'n amlwg hefyd bod hyn ymhell o ddiwallu'r angen am gymorth, a bod llawer o wasanaethau'n wynebu sefyllfa ariannol ansicr ac ansefydlog.

Mae 'loteri cod post' yn amlwg o ran y tebygolrwydd y bydd dioddefwr/goroeswr yn gallu cael gafael ar gymorth sy'n diwallu ei anghenion, er bod prinder ym mhob man.

- Fe wnaethom nodi 468 o wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol a'u teuluoedd yng Nghymru a Lloegr. Roedd pedwar o bob pump ohonynt yn y sector nid-er-elw.
- Roedd y gwasanaethau'n brin o gymharu â'r galw a'r angen, gydag amrywiaeth daearyddol enfawr. Ym mhob rhanbarth, roeddem wedi amcangyfrif bod rhwng 10,000 ac 20,000 o ddioddefwyr/goroeswyr ar gyfer pob gwasanaeth sy'n darparu cymorth.
- Roedd llai na chwarter y gwasanaethau'n gweithredu ar draws mwy nag un rhanbarth, ac roedd capasiti'r rhan fwyaf yn gyfyngedig: roedd bron i hanner wedi cefnogi llai na 100 o bobl mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol yn ystod 2021/22.
- Roedd ychydig mwy o wasanaethau ar gyfer plant – plant hŷn yn bennaf – nag ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion, ond mae'n ymddangos bod diffyg gwasanaethau sy'n cefnogi rhieni plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Roedd un o bob saith gwasanaeth oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar anghenion menywod/merched, gyda llai o lawer yn canolbwyntio ar fechgyn/dynion neu ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- Dywedodd hanner y gwasanaethau – a dwy ran o dair o'r rheini yn y sector nid-er-elw – na allent ymdopi â'r galw. O ganlyniad, roeddem wedi cyfrifo bod tua 55,000 o bobl ar restrau aros i gael gafael ar gymorth. Roedd dros chwe mis o aros ar gyfer dros hanner y rhestrau hyn, ac roedd un o bob naw yn gorfod aros dros flwyddyn. Roedd gwasanaethau hefyd yn gorfod cyfyngu ar faint o gymorth y gallai eu defnyddwyr ei gael.
- Dywedodd naw o bob 10 gwasanaeth yn y sector nid-er-elw eu bod yn wynebu heriau o ran eu cyllid, yn aml oherwydd natur tymor byr grantiau a chontractau; dim ond traean oedd yn gwbl hyderus y gallent gynnal eu gwasanaeth ar y lefelau presennol yn y flwyddyn ariannol nesaf. Teimlwyd bod prinder cyllid, ynghyd â phwysau'r galw, yn llesteirio ymdrechion gwasanaethau i gyrraedd ystod fwy amrywiol o bobl.
- Disgrifiodd llawer o wasanaethau heriau o ran cynnal adnoddau digonol – yn enwedig o ran recriwtio a chadw staff – i gefnogi dioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd.

## Goblygiadau'r ymchwil

Er mwyn i'r ymateb i ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol (gan gynnwys y cannoedd ar filoedd o blant ac oedolion nad ydynt yn cael unrhyw gymorth ar hyn o bryd) fod yn effeithiol, rhaid i'r cymorth sydd ar gael fod **yn ddigonol, yn briodol ac yn hygyrch** – ond gwelsom nad yw'r elfennau sylfaenol hyn ar waith ar hyn o bryd.

Mae yna achos dyngarol ac economaidd dros fuddsoddiad uwch a mwy ystyriol i gynnal a chefnogi'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau, ac er mwyn gallu ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr/goroeswyr sy'n blant ac yn oedolion a'u teuluoedd. Rydyn ni wedi nodi chwe blaenoriaeth ar gyfer llunwyr polisi, cyllidwyr a chomisiynwyr:

1. **Sicrhau cyllid digonol ar gyfer gwasanaethau i gynnal eu darpariaeth bresennol a darparu cymorth amserol.**
   Dylai hyn gynnwys cyllid anghyfyngedig, dros nifer o flynyddoedd, sy'n galluogi gwasanaethau i ddarparu cymorth sy'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth ar yr adeg y mae ei angen arnynt; ni ddylai gwasanaethau orfod gweithredu gyda rhestrau aros hir.

2. **Gan weithio'n agos gyda gwasanaethau, darparu cyllid sy'n eu galluogi i ehangu a datblygu, er mwyn iddynt allu diwallu anghenion amrywiol eu defnyddwyr gwasanaeth presennol a grwpiau defnyddwyr newydd.**
   Gallai'r cyllid hwn gael ei ddefnyddio gan wasanaethau i ymestyn eu cyrhaeddiad; i gynllunio, datblygu a gwerthuso cymorth newydd, gydag ymrwymiad defnyddwyr eu gwasanaeth; ac i archwilio gwahanol fodelau cymorth, er mwyn iddynt allu addasu i anghenion unigol defnyddwyr y gwasanaeth.

3. **Darparu cyllid a chymorth o ran seilwaith gwasanaethau.**
   Byddai hyn yn galluogi gwasanaethau i wella eu systemau casglu data a dadansoddi; cefnogi a gweithio ar y cyd â gweithwyr proffesiynol eraill, heb leihau'r cymorth maent yn ei ddarparu i'w defnyddwyr gwasanaeth eu hunain; datblygu a rhannu fframweithiau ac adnoddau asesu ansawdd ac effaith; a datblygu a rhannu dysgu ac ymarfer o ran ymgysylltu ac ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth.

4. **Darparu cyllid i gefnogi hyfforddiant ac uwchsgilio gweithwyr proffesiynol, p'un a ydynt yn gweithio mewn gwasanaethau cymorth arbenigol neu yn y rhwydwaith proffesiynol ehangach.**
   Mae angen hyfforddiant ar weithwyr proffesiynol arbenigol i fod ar flaen y gad a datblygu eu sgiliau mewn meysydd fel gwahanol fathau o gam-drin plant yn rhywiol a ffyrdd o gefnogi plant. Hefyd, o ystyried y rôl ganolog a chwaraeir gan weithwyr proffesiynol anarbenigol mewn asiantaethau statudol pan fydd pryderon am gam-drin plant yn rhywiol yn codi, mae angen hyfforddiant ar frys ar eu cyfer er mwyn gallu cael ymateb effeithiol a chydgysylltiedig i blant ac oedolion y mae'r cam-drin hwnnw'n effeithio arnynt.

5. **Comisiynu ymchwil i anghenion cymorth grwpiau penodol a mynediad at wasanaethau.**
   Byddai'r gwaith ymchwil hwn yn arbennig o fuddiol mewn perthynas â bechgyn, plant ag anableddau corfforol, a phlant ac oedolion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

6. **Gwella arbenigedd cyllidwyr a chomisiynwyr eu hunain o ran cyllido gwasanaethau cymorth cam-drin plant yn rhywiol yn effeithiol.**
   Gallai hyn gynnwys mynediad at wybodaeth ac arweiniad, hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi cyllidwyr a chomisiynwyr i gynnal asesiadau o anghenion sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Roedd y goblygiadau ar gyfer gwasanaethau, ac ar gyfer yr holl asiantaethau a phartneriaethau sy’n ymwneud â’r ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, yn cynnwys y canlynol:

- Ni ddylai asiantaethau statudol yn benodol gau achosion cyn i gymorth gan wasanaethau eraill ddechrau; bydd hyn yn atal dioddefwyr/goroeswyr rhag cael eu gadael heb unrhyw gymorth. Dylent hefyd ystyried darparu cyllid ar gyfer gwasanaethau nid-er-elw y maent yn atgyfeirio pobl atynt.
- Dylid cynnwys gwasanaethau mewn rhwydweithiau a phartneriaethau lleol, yn enwedig Byrddau/Partneriaethau Lleol Diogelu Plant, a chael cyfleoedd i ddod at ei gilydd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

## Ynghylch yr ymchwil

Dechreuodd yr ymchwil, a gynhaliwyd gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (Canolfan CPRh) rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Ebrill 2023, gydag ymarfer mapio a nododd **468 o wasanaethau yng Nghymru a Lloegr** sy’n darparu cymorth therapiwtig neu gymorth sy’n canolbwyntio ar les i ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, a/neu eu teuluoedd. Yna, fe wnaethom gysylltu â’r holl wasanaethau hyn, gan wahodd pob un ohonynt i gymryd rhan mewn cyfweliad ar-lein; cynhaliwyd cyfweliad â chyfanswm o 168 o wasanaethau.

Roedd y gwaith mapio’n cwmpasu’r holl wasanaethau sy’n cefnogi dioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol – plant ac oedolion – a/neu aelodau o’u teulu, ar yr amod bod y cymorth yn cael ei gynnig yn rhad ac am ddim a’i fod yn canolbwyntio ar agweddau therapiwtig neu les.

Yn ogystal â gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn unig, roedd yn cwmpasu gwasanaethau yn y sector trais rhywiol yr oedd eu cylch gwaith yn cynnwys cam-drin plant yn rhywiol (fel canolfannau Argyfwng Trais), a gwasanaethau gyda chylch gwaith ehangach a oedd yn cynnwys cam-drin plant yn rhywiol - er enghraifft, gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar fasnachu pobl, cam-fanteisio ar blant yn droseddol neu gam-drin domestig, lle gellid darparu cymorth ynghylch cam-drin rhywiol lle bo hynny’n berthnasol.

## Beth yw gwasanaethau cymorth?

O’r 468 o wasanaethau a nodwyd gennym:

- roedd un o bob pump yn canolbwyntio’n llwyr ar gefnogi dioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol a/neu aelodau o’u teulu
- roedd bron i chwarter yn gweithredu yn y sector trais rhywiol
- roedd gan bron i dri o bob pump gylch gwaith ehangach.

Gwasanaethau yn y sector **nid-er-elw** – bron pob un ohonynt yn elusennau – oedd 81% o’r cyfanswm. Roeddent yn cynnwys canolfannau Argyfwng Trais, canolfannau trais a cham-drin rhywiol, Canolfannau i Fenywod, Canolfannau Hawliau Merched, gwasanaethau cwnsela, gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr a gwasanaethau wedi’u harwain gan oroeswyr.

Roedd 5% arall yn y sector **preifat**, wedi'u lleoli'n bennaf mewn prifysgolion neu'n darparu gofal preswyl.

Roedd 14% o’r gwasanaethau yn y sector **statudol** yn rhan o’r GIG, awdurdodau lleol neu’r system cyfiawnder troseddol.

Roedd dros hanner y gwasanaethau’n gweithredu ar draws llai na 10 awdurdod lleol mewn **un rhanbarth**. I’r gwrthwyneb, roedd un o bob pump yn gweithredu ar draws **Lloegr gyfan a/neu Gymru**; roedd y bron pob gwasanaeth cenedlaethol yn y sector nid-er-elw.

Roedd pedair o bob pump o'r gwasanaethau'n darparu cymorth i **blant**, ac roedd ychydig yn llai yn cefnogi **oedolion** (p'un a oeddent yn ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, yn rhieni i blant a oedd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, ac/neu wedi cael eu heffeithio fel arall gan gam-drin rhywiol).

Roedd llai na chwarter y gwasanaethau'n darparu cymorth yn bennaf neu'n gyfan gwbl i grwpiau â nodweddion penodol – yn bennaf i **ferched/menywod** neu bobl o **gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig**. Roedd un o bob chwech yn darparu cymorth yn benodol ynghylch **camfanteisio'n rhywiol ar blant**, ond ychydig oedd yn canolbwyntio ar fathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol.

Roedd dau o bob tri o'r gwasanaethau y gwnaethom gyfweld â nhw wedi bod yn darparu cymorth mewn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol ers **dros 10 mlynedd**.

## Pa gymorth sydd ar gael?

Roedd gwasanaethau'n darparu pum prif fath o gymorth, gyda dwy ran o dair yn cynnig mwy nag un math o gymorth:

- Roedd tri chwarter y gwasanaethau'n darparu **cwnsela, cymorth emosiynol neu therapi** un-i-un i blant, oedolion neu aelodau o'r teulu y mae cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio arnynt.
- Roedd dros hanner yn cynnig **gwaith achos, cymorth neu eiriolaeth** un-i-un gan Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVAs) neu Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol Plant (ChISVAs).
- Roedd bron i hanner yn cynnig ymyriadau **grŵp**.
- Roedd bron i draean yn darparu **llinell gymorth neu wasanaeth sgwrsio**.
- Roedd cyfran fach yn darparu **gofal preswyl**.

Roedd cymorth ar gael yn fwyaf cyffredin i **oedolion a phlant hŷn** dros 13 oed; roedd llawer llai o gefnogaeth uniongyrchol i blant dan 10 oed. Er bod y rhan fwyaf o'r cymorth ar gael i'r ddau ryw, roedd chwarter yr ymyriadau grŵp ar gyfer menywod neu ferched yn unig. Ychydig iawn o wasanaethau a oedd yn benodol ar gyfer grwpiau ethnig neu ffydd penodol.

Er bod gwasanaethau'n dweud eu bod yn ceisio bod yn hyblyg, roedd cymorth un-i-un a chymorth grŵp yn cael ei gynnig yn ystod **oriau swyddfa yn ystod yr wythnos** yn unig – dim ond un o bob naw ymyriad therapiwtig un-i-un oedd ar gael ar y penwythnos – ac roedd yn aml yn **gyfyngedig o ran amser**.

## Pwy sy'n cael ei gefnogi?

Dywedodd bron i hanner y gwasanaethau y gwnaethom gyfweld â nhw eu bod, yn 2021/22, wedi cefnogi **llai na 100 o bobl** yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol. Roedd lleiafrif bach, yn bennaf yn y sector nid-er-elw, wedi cefnogi miloedd o blant ac oedolion yn ystod y flwyddyn.

Roedd dros hanner y gwasanaethau sy'n cefnogi plant, a dwy ran o dair o'r rheini sy'n cefnogi oedolion, yn amcangyfrif bod o leiaf 75% o'u defnyddwyr gwasanaeth yn 2021/22 yn **fenywod a/neu'n ferched**.

Roedd gwasanaethau'n awyddus i wella eu **hymateb i grwpiau a dangynrychiolir**, ac roeddent yn dweud eu bod wedi cefnogi ystod gynyddol amrywiol o bobl yn ystod y blynyddoedd diwethaf – ond amcangyfrifodd un o bob chwech fod pobl o **gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig** yn cyfrif am lai na 5% o ddefnyddwyr eu gwasanaeth. Roedd **plant ag anabledd corfforol** hefyd yn cael eu tangynrychioli; mewn cyferbyniad; roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau a oedd yn cefnogi plant yn amcangyfrif bod gan o leiaf 10% o'u defnyddwyr gwasanaeth sy'n blant **anableddau/anawsterau dysgu**

## Bylchau yn y ddarpariaeth

Roedd **gwasanaethau'n brin** ledled Cymru a Lloegr. Drwy gymharu nifer y gwasanaethau â'r amcangyfrif o nifer y dioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol ym mhob rhanbarth, gwelsom fod miloedd o bobl yn debygol o fod yn byw gydag effeithiau cam-drin plant yn rhywiol ar gyfer pob gwasanaeth sydd ar gael i'w cefnogi. Ym mhob rhanbarth, roedd **rhwng 2,500 a 5,000 o ddioddefwyr/goroeswyr sy'n blant** – a **rhwng 10,500 a 23,000 o ddioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion** – ar gyfer pob gwasanaeth oedd yn cefnogi'r grwpiau oedran hynny.

Roedd cymhareb gyffredinol y dioddefwyr/goroeswyr i wasanaethau yn amrywio o **10,000:1 yng Nghymru** i **20,000:1 yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr.**

**Nid oedd yn ymddangos** bod bron i ddwy ran o dair o'r gwasanaethau sy'n cefnogi plant **yn cynnig unrhyw gymorth i'w rhieni.**

Roedd bylchau mawr hefyd yn y ddarpariaeth ar gyfer pobl y mae mathau penodol o gam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt, yn enwedig **cam-drin o fewn y teulu** a **cham-drin mewn cyd-destunau ar-lein**, ac ar gyfer pobl â nodweddion penodol. Ychydig iawn o wasanaethau y tu allan i Lundain – ac nid oedd yr un ohonynt yn Ne-ddwyrain Lloegr nac yn Ne-orllewin Lloegr – yn canolbwyntio ar gefnogi pobl o **gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig**, ac roedd gwasanaethau a oedd yn benodol ar gyfer **dynion/bechgyn** y mae cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio arnynt, yn brin ym mhob rhanbarth. Dywedodd y gwasanaethau eu bod eisiau gwella i ba raddau y maen nhw'n estyn allan i'r ddau grŵp.

## Rhestrau aros

Dim ond hanner y gwasanaethau y gwnaethom gyfweld â nhw – a phrin draean o'r gwasanaethau nid-er-elw a'r gwasanaethau hynny sy'n canolbwyntio ar drais rhywiol – oedd yn teimlo eu bod yn gallu **ateb y galw** am gymorth. Roedd hyn yn atal rhai rhag hyrwyddo eu hunain.

Roedd gan dri chwarter y gwasanaethau y cyfwelwyd â nhw yn y sector nid-er-elw, a bron i hanner y gwasanaethau statudol, **restr aros** ar gyfer pobl a oedd yn ceisio cael gafael ar gymorth; roedd pob rhestr yn cynnwys 180 o bobl ar gyfartaledd, ac rydyn ni'n amcangyfrif bod tua **55,000 o bobl** yng Nghymru a Lloegr ar restrau aros i gael cymorth mewn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

Ar gyfartaledd, treuliwyd **dros chwe mis** ar restr aros; ac roedd un o bob naw rhestr yn cynnwys aros am dros flwyddyn.

Dywedodd llawer o wasanaethau fod eu **rhestrau aros wedi cynyddu** dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd y rhan fwyaf yn darparu rhyw fath o gymorth dros dro i bobl ar eu rhestr aros, o gadw mewn cysylltiad rheolaidd i ddarparu mynediad at adnoddau neu grwpiau cymorth gan gymheiriaid.

Roedd cadw rhestrau aros hefyd yn effeithio ar y gwasanaeth a ddarparwyd – er enghraifft, drwy **leihau nifer y sesiynau cymorth** y gellid eu cynnig i bob defnyddiwr gwasanaeth. Roedd y gwasanaethau hefyd yn tynnu sylw at yr effaith negyddol ar **iechyd meddwl dioddefwyr/goroeswyr**, ac ar berthnasoedd cymdeithasol plant a'u gallu i ymgysylltu ag addysg.

## Cyllido gwasanaethau

Roedd y rhan fwyaf o wasanaethau y cyfwelwyd â nhw yn y sector nid-er-elw yn cael eu hincwm o sawl ffynhonnell: roedd bron i dri chwarter yn cael **arian grant**, comisiynwyd dwy ran o dair i **ddarparu cymorth penodol**, a chafodd dwy ran o bump incwm drwy **roddion unigol**.

O gymharu â hyn, derbyniodd y gwasanaethau statudol i gyd eu hincwm drwy gomisiynu yn unig.

Roedd llawer o wasanaethau hefyd wedi cael **cyllid ychwanegol** yn 2021/2022, yn aml yn gysylltiedig â phandemig COVID-19. Er eu bod yn croesawu'r incwm ychwanegol hwn, roedd yn cyflwyno heriau i rai – yn rhannol oherwydd yr amserlenni byr y bu'n rhaid ei wario.

Teimlai rhai gwasanaethau **nad oedd gan eu cyllidwyr/comisiynwyr ddealltwriaeth** o ddarparu cymorth cam-drin plant yn rhywiol, neu eu bod wedi **gosod meini prawf** a oedd yn ei gwneud yn anodd ymateb yn hyblyg i angen. Dywedodd eraill fod eu cyllidwyr/comisiynwyr yn **gefnogol** a'u bod yn **ymddiddori'n frwd** yn eu gwaith.

Dywedodd pedwar o bob pump o wasanaethau – ac yn enwedig y rheini yn y sector nid-er-elw – eu bod yn wynebu heriau gyda'u cyllid, sy'n aml yn gysylltiedig â'i natur **tymor byr**. Nid oedd bron i ddwy ran o dair yn teimlo'n gwbl hyderus y gallent gynnal eu darpariaeth gwasanaeth bresennol yn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd y materion a nodwyd gan wasanaethau nid-er-elw yn cynnwys penderfyniadau cyllido a wnaed ar **fyr rybudd**, **mwy o gystadleuaeth** am gyllid, a **gostyngiad cyffredinol yn y cyllid sydd ar gael**.

## Staffio a gwirfoddolwyr

Roedd gan dros hanner y gwasanaethau y cyfwelwyd â nhw **rhwng un a naw aelod o staff cyfwerth ag amser llawn** a oedd yn darparu cymorth yn uniongyrchol ynghylch cam-drin plant yn rhywiol. Roedd gan y rhan fwyaf o wasanaethau gyda mwy o staff gylch gwaith trais rhywiol.

Roedd **recriwtio** a **chadw** staff yn her i'r mwyafrif helaeth o wasanaethau, oherwydd y sgiliau sydd eu hangen ac anhawster y sector nid-er-elw i gynnig cyflogau cystadleuol.

Ychydig iawn o wasanaethau oedd heb unrhyw staff cyflogedig, ond roedd dros hanner yn defnyddio **gwirfoddolwyr** i gefnogi'r gwaith o ddarparu eu gwasanaeth, mewn rolau fel cyfeillio, cymorth gweinyddol neu dechnegol, a hyrwyddo gwasanaethau. Dywedodd eraill nad oedd ganddynt yr adnoddau i reoli gwirfoddolwyr neu eu bod yn cael trafferth eu recriwtio, yn enwedig o ganlyniad i bandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw.

Dywedodd tri chwarter y gwasanaethau fod eu staff a'u gwirfoddolwyr **wedi cael hyfforddiant penodol** ar gam-drin plant yn rhywiol, ond dywedodd nifer tebyg yr hoffent gael mwy o hyfforddiant yn y maes hwn.

## Atgyfeiriadau a chysylltiadau allanol eraill

Dywedodd y rhan fwyaf o wasanaethau eu bod yn teimlo bod ganddynt **gysylltiad da** â gwasanaethau ac asiantaethau eraill, er ei bod yn ymddangos nad oeddent yn atgyfeirio'n gyffredinol at gysylltiadau â gwasanaethau eraill sy'n darparu cymorth cam-drin plant yn rhywiol.

Roedd dwy ran o dair o'r gwasanaethau sy'n cefnogi plant wedi'u cysylltu â'u **Partneriaeth/Bwrdd Lleol Diogelu Plant**; roeddent yn teimlo bod hyn yn eu helpu i ddeall y risgiau a'r mathau o niwed sy'n wynebu plant lleol, yn cyfrannu at strategaethau diogelu ac yn datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol.

Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau nad oedd y systemau ar gyfer **derbyn atgyfeiriadau** a **gwneud atgyfeiriadau** bob amser yn effeithiol. Soniodd gwasanaethau nid-er-elw am asiantaethau statudol yn cau achosion ar ôl eu hatgyfeirio, heb gadarnhau a allai'r gwasanaeth sy'n derbyn ddarparu cymorth o fewn amserlen briodol; roedd gwaith aml-asiantaeth aneffeithiol, a oedd weithiau'n arwain at atgyfeiriadau amhriodol, yn fater arall. Nodwyd bod meini prawf cyfyngol asiantaethau eraill ar gyfer atgyfeirio a'u trothwyon uchel ar gyfer derbyn achosion yn heriau i wasanaethau sy'n gwneud atgyfeiriadau.

## Cymorth i weithwyr proffesiynol eraill

Roedd tri chwarter y gwasanaethau y cyfwelwyd â nhw yn cynnig **hyfforddiant, cyngor/arweiniad, ymgynghoriadau achos** a/neu gymorth arall i weithwyr proffesiynol eraill – yn fwyaf cyffredin, i'r rhai mewn ysgolion, y sector nid-er-elw, yr heddlu a gofal cymdeithasol plant. Mae hanner y gwasanaethau hyn weithiau'n **codi tâl** am y cymorth hwn, ond ychydig iawn sy'n codi tâl *bob amser*.

Amcangyfrifwyd bod **dros 70,000 o weithwyr proffesiynol** wedi cael cymorth yn 2021/22. Dywedodd gwasanaethau fod y nifer wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda rhai'n cysylltu hyn â mwy o ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol ymysg gweithwyr proffesiynol.

Er bod gwasanaethau'n teimlo bod eu cymorth yn fuddiol o ran gwella gwybodaeth a hyder gweithwyr proffesiynol i ganfod a mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, roeddent yn dweud ei bod yn her **rheoli'r cydbwysedd** rhwng y gwaith hwn a chefnogi dioddefwyr/goroeswyr yn uniongyrchol yng nghyd-destun adnoddau cyfyngedig.

## Asesu, gwerthuso a datblygu gwasanaethau

Roedd bron pob un o'r gwasanaethau y gwnaethom gyfweld â nhw yn asesu ac yn gwerthuso **ansawdd ac effaith y gwasanaethau a ddarperir ganddynt** mewn rhyw ffordd ffurfiol, ac roedd mwy na thraean wedi ymrwymo i safonau ansawdd neu wrthi'n ymrwymo i safonau o'r fath.

Fodd bynnag, roedd angen adnoddau ar gyfer datblygu a gweithredu systemau asesu a gwerthuso effeithiol, a dywedodd llawer o wasanaethau wrthym y byddent yn gwerthfawrogi cymorth yn y maes hwn.

Roedd pedwar o bob pump o'r gwasanaethau'n **cynnwys defnyddwyr gwasanaeth** yn ffurfiol yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau, yn aml drwy grwpiau neu baneli ymgynghori. Unwaith eto, dywedodd llawer eu bod eisiau cymorth gyda hyn.

Roedd dwy ran o dair wedi **ehangu eu darpariaeth** dros y blynyddoedd diwethaf, ac roedd pedwar o bob pump yn ystyried ffyrdd o'i datblygu ymhellach. Er bod pandemig COVID-19 wedi arwain at lefelau uwch o drawma ac anghenion cymhleth ymysg defnyddwyr gwasanaethau, a mwy o oedi yn y system cyfiawnder troseddol, roedd hefyd wedi arwain at chwistrelliad o gyllid i'r sector, er ei fod yn un tymor byr, gan ganiatáu i wasanaethau gynyddu o ran maint neu gwmpas.

## Ffactorau sy'n cyfrannu at gymorth effeithiol

Tynnodd gwasanaethau sylw at bwysigrwydd darparu cymorth a oedd yn **hyblyg** ac **wedi'i deilwra i anghenion unigol,** wedi'i ddarparu gan **staff medrus, tosturiol ac ymrwymedig iawn**.

Tynnwyd sylw at **hygyrchedd** gwasanaethau hefyd; dywedodd y rhan fwyaf o wasanaethau eu bod yn cymryd camau i wneud eu hunain yn hygyrch, yn fwyaf cyffredin drwy fynd i'r afael â **rhwystrau o ran iaith a diwylliant**, a gwella mynediad i **bobl ag anabledd corfforol.**

Centre of expertise on child sexual abuse

Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn:
**www.csacentre.org.uk/support-matters/**

Tynnwyd y llun sydd ar y clawr drwy ddefnyddio actorion
ac nid yw'n dangos sefyllfa go iawn.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre | 𝕏 @csacentre
**www.csacentre.org.uk**

23838fesw